## PEIRIANNYDD PRENTIS TGCh

**Cytundeb cyfnod penodol am dair blynedd**
**I gychwyn ym Mlwyddyn Academaidd 2020**

**37 AWR YR WYTHNOS**

**Dechrau ar RADDFA 3 (Cyflog: £18,065)**

**Gan symud ymlaen at RADDFA 9 (Cyflog: £26,999) dros gyfnod o 3 blynedd**

(Sylwch fod yr holl gyflogau'n amodol ar werthusiad swydd)

**Dyfernir cynyddrannau bob 6 mis yn amodol ar ddilyniant boddhaol drwy Gymhwysedd Proffesiynol Llywodraeth Cymru i Weithwyr Proffesiynol TG a Thelathrebu**

| Cyraeddiadau | Camau Cynnydd | Graddfa |
|---|---|---|
| 25% Lefel 3 | Dechrau prentisiaeth | 3 |
| 50% Lefel 3 | 6 mis | 4 |
| 75% Lefel 3 | 12 mis | 5 |
| 100% Lefel 3 | 18 mis | 6 |
| 25% Lefel 4 | 24 mis | 7 |
| 50% Lefel 4 | 30 mis | 8 |
| 75% Lefel 4 | 36 months | 9 |
| Cwblhau'r Brentisiaeth ar ôl 36 mis (2023) | | |

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru eisiau recriwtio dau Beiriannydd Prentis TGCh. Cyfle datblygu ardderchog yw hwn i unigolion hunan ysgogol ddechrau gyrfa mewn Technoleg Gwybodaeth. Lleolir y Brentisiaeth o fewn yr Adran Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Pwrpas y swydd hon yw darparu gwasanaeth, cefnogaeth a chyngor ym mhob agwedd o'r systemau TGCh a ddefnyddir ar draws y Gwasanaethau Brys. Yn ogystal ag ennill profiad gwaith gwerthfawr, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni Diploma Lefel 3 mewn Cymhwysedd i Weithwyr Proffesiynol TGCh a Thelathrebu Llywodraeth Cymru (1 flwyddyn) ac wedyn Ddiploma Lefel 4 (2 flynedd).

Sylwch: Pennir argaeledd cymwysterau Prentisiaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020 – 2021 gan Lywodraeth Cymru yn unol â Chanllawiau Covid-19. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio darparu profiad dysgu o ansawdd uchel i'r ymgeisydd llwyddiannus a gellir chwilio am lwybrau hyfforddi a chymwysterau eraill lle bo angen.

Rydym yn chwilio am unigolion gyda:-

- Lleiafswm o 5 TGAU hyd radd C neu uwch gan gynnwys Saesneg, Mathemateg a Thechnoleg Gwybodaeth NEU gymhwyster cyfatebol (Lefel 2 Sgiliau Hanfodol)
- Brwdfrydedd dros Dechnoleg a Thechnoleg Gwybodaeth
- Gwybodaeth ymarferol o Gymwysiadau Microsoft
- Gallu datrys problemau ac yn ymarferol
- Ymagwedd cwsmer-ganolog

cynllun prentisiaeth
gwasanaeth tân ac achub de cymru

south wales fire and rescue service
apprenticeship scheme

Sut i ymgeisio: Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalen 'Gweithio i ni' www.decymru-tan.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, canol dydd, 27/07/2020.**

Dylid danfon Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Ceisiadau am Swyddi yn ystod Pandemig COVID-19

Nid oes modd i ni dderbyn Ceisiadau am Swyddi a gyflwynir yn bersonol i unrhyw un o'n safleoedd nes y rhoddir hysbysiad pellach. Dylid cyflwyno ceisiadau drwy law e-bost neu drwy'r post. Sicrhewch eich bod chi'n rhoi stampiau digonol ar gyfer maint a phwysau eich Cais ac yn gadael amser ychwanegol gan fod y gwasanaethau post dan bwysau sylweddol ar hyn o bryd.

Er mwyn diogelu ein Staff a'r sawl sy'n Ymgeisio am Swyddi, rydym wedi addasu ein prosesau Recriwtio, a byddwn yn defnyddio E-byst, Galwadau Ffôn, y Rhyngrwyd a Chyswllt Fideo i gyfathrebu â'n hymgeiswyr, cynnal Cyfweliadau ac Asesiadau a chynnal ein Gwiriadau Cyn Cyflogi. Rhoddir diweddariadau mewn perthynas â chynnydd eich Ceisiadau yn ystod y camau Llunio Rhestr Fer, Dethol, a Chyn Cyflogi. I gael gwybodaeth bellach cyfeiriwch at y dudalen COVID19 ar ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/ystafell-newyddion/newyddion/safle-covid19/

Rydym yn ddiolchgar am eich amynedd a'ch cydweithredu yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn.

Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol cyn y gweir apwyntiad.

Trefniadau gweithio: Gweithredir cynllun oriau gwaith hyblyg. Efallai bydd y rôl yn cynnwys peth gwaith gyda'r hwyr/ ar benwythnosau yn nes ymlaen yn y Brentisiaeth wrth i chi ennill profiad a gallu gweithio'n annibynnol. Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn gallu teithio'n annibynnol er mwyn cefnogi galwadau TGCh o unrhyw un o'n amryw safleoedd.

Ydych chi'n siarad Cymraeg? Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG